*Argraffwyd yr Offeryn Statudol Cymreig hwn yn lle'r OSC sy'n dwyn yr un rhif ac fe'i dyroddir yn rhad ac am ddim i bawb y gwyddys iddynt gael yr Offeryn Statudol Cymreig hwnnw.*

O F F E R Y N N A U   S T A T U D O L   C Y M R U

# 2016 Rhif 1220 (Cy. 291)

# LLYWODRAETH LEOL, CYMRU

## Rheoliadau Arolygon Etholiadau Lleol (Cymru) (Diwygio) 2016

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Arolygon Etholiadau Lleol (Cymru) 2012 ("Rheoliadau 2012").

Mae adran 1 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 ("y Mesur") yn gosod dyletswydd ar awdurdod lleol (cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol) i gynnal arolwg, drwy ofyn cwestiynau rhagnodedig i gynghorwyr ac ymgeiswyr sydd wedi sefyll i gael eu hethol yn gynghorwyr i'r cyngor sir neu'r cyngor bwrdeistref sirol neu i gyngor cymuned yn ardal yr awdurdod lleol. Diwygiwyd adran 1 gan Ddeddf Llywodraeth Leol (Cymru) 2015 ("Deddf 2015") ac mae'n darparu bod rhaid cynnal yr arolwg cyn neu ar ôl pob etholiad cyffredin ac i dynnu'r gofyniad i awdurdodau lleol wneud trefniadau i wybodaeth gael ei darparu yn ddienw.

Mae Rheoliadau 2012 yn rhagnodi'r cwestiynau y mae'n rhaid eu gofyn. Mae rheoliadau 3 a 4 yn diwygio Rheoliadau 2012 ac yn mewnosod arolwg newydd yn Rheoliadau 2012. Mae'r arolwg diwygiedig yn debyg i'r arolwg yn Rheoliadau 2012, gan ychwanegu cwestiynau unigryw sy'n cynnwys gwybodaeth adnabod y gellir eu defnyddio er mwyn canfod a oedd ymatebydd i'r arolwg wedi ei ethol yn gynghorydd. Mae'r diwygiadau hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i ofyn cwestiynau gwahanol yn dibynnu ar ba un ai cyn neu ar ôl etholiad cyffredin y cynhelir yr arolwg.

*This Welsh Statutory Instrument has been printed in substitution of the WSI of the same number and is being issued free of charge to all known recipients of that Statutory Instrument.*

W E L S H   S T A T U T O R Y   I N S T R U M E N T S

# 2016 No. 1220 (W. 291)

# LOCAL GOVERNMENT, WALES

## The Local Election Survey (Wales) (Amendment) Regulations 2016

### EXPLANATORY NOTE

*(This note is not part of the Regulations)*

These Regulations amend the Local Election Survey (Wales) Regulations 2012 ("the 2012 Regulations").

Section 1 of the Local Government (Wales) Measure 2011 ("the Measure") imposes a duty on a local authority (a county council or county borough council), to conduct a survey by asking prescribed questions of councillors and candidates who have stood for election as councillors to the council of the county or county borough or to a community council in the local authority's area. Section 1 was amended by the Local Government (Wales) Act 2015 ("the 2015 Act") and provides that the survey must be conducted before or after each ordinary election, and removes the requirement for local authorities to arrange for information to be provided anonymously.

The 2012 Regulations prescribe the questions that must be asked. Regulations 3 and 4 amend the 2012 Regulations and insert a new survey into the 2012 Regulations. The amended survey is similar to the survey in the 2012 Regulations, with the addition of unique identifying questions which can be used to establish whether a survey respondent was elected as a councillor. The amendments will also require different questions to be asked depending on whether the survey is being conducted before or after an ordinary election.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â’r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, paratowyd asesiad effaith rheoleiddiol o’r costau a’r manteision sy’n debygol o ddeillio o gydymffurfio â’r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi oddi wrth y Tîm Democratiaeth, Amrywiaeth a Chydnabyddiaeth Ariannol, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.

The Welsh Ministers' Code of Practice on the carrying out of Regulatory Impact Assessments was considered in relation to these Regulations. As a result, a regulatory impact assessment has been prepared as to the likely costs and benefits of complying with these Regulations. A copy can be obtained at Democracy, Diversity and Remuneration Team, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff, CF10 3NQ.

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2016 Rhif 1220 (Cy. 291)

# LLYWODRAETH LEOL, CYMRU

## Rheoliadau Arolygon Etholiadau Lleol (Cymru) (Diwygio) 2016

*Gwnaed* *13 Rhagfyr 2016*

*Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru* *15 Rhagfyr 2016*

*Yn dod i rym* *6 Ionawr 2017*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 1(3)(a) a 175 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011(**1**), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn:

**Enwi a chychwyn**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Arolygon Etholiadau Lleol (Cymru) (Diwygio) 2016.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 6 Ionawr 2017.

**Dehongli**

**2.** Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr "y Mesur" ("*the Measure*") yw Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011; ac

ystyr "Rheoliadau 2012" ("*the 2012 Regulations*") yw Rheoliadau Arolygon Etholiadau Lleol (Cymru) 2012(**2**).

**Diwygiadau i Reoliadau 2012**

**3.** Yn lle rheoliad 3 (cwestiynau a ffurflen yr arolwg) o Reoliadau 2012, rhodder—

(**1**) 2011 (mccc 4).
(**2**) O.S. 2012/685 (Cy. 93).

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

# 2016 No. 1220 (W. 291)

# LOCAL GOVERNMENT, WALES

## The Local Election Survey (Wales) (Amendment) Regulations 2016

*Made* *13 December 2016*

*Laid before the National Assembly for Wales* *15 December 2016*

*Coming into force* *6 January 2017*

The Welsh Ministers, in exercise of the powers conferred upon them by sections 1(3)(a) and 175 of the Local Government (Wales) Measure 2011(**1**), make the following Regulations:

**Title and commencement**

**1.**—(1) The title of these Regulations is the Local Election Survey (Wales) (Amendment) Regulations 2016.

(2) These Regulations come into force on 6 January 2017.

**Interpretation**

**2.** In these Regulations—

"the 2012 Regulations" ("*Rheoliadau 2012*") means the Local Election Survey (Wales) Regulations 2012(**2**); and

"the Measure" ("*y Mesur*") means the Local Government (Wales) Measure 2011.

**Amendments to the 2012 Regulations**

**3.** For regulation 3 (survey questions and form) of the 2012 Regulations substitute—

(**1**) 2011 (nawm 4).
(**2**) S.I. 2012/685 (W. 93).

“**3. Cwestiynau a ffurf yr arolwg**

At ddibenion adran 1(3)(a) o’r Mesur, mae’r cwestiynau a’r ffurf y maent i gael eu gofyn ynddynt wedi eu dangos yn—

(a) Rhannau 1, 2 a 4 o’r Atodlen os cynhelir yr arolwg yn unol ag adran 1(3A)(b) o’r Mesur; a

(b) Rhannau 1, 3 a 4 o’r Atodlen os cynhelir yr arolwg yn unol ag adran 1(3A)(a) o’r Mesur.”

**4.** Yn lle’r Atodlen i Reoliadau 2012 (Arolwg o Ymgeiswyr Llywodraeth Leol yng Nghymru), rhodder yr Atodlen i’r Rheoliadau hyn.

“**3. Survey questions and form**

For the purposes of section 1(3)(a) of the Measure, the questions and form in which they are to be asked are set out in—

(a) Parts 1, 2 and 4 of the Schedule if the survey is conducted in accordance with section 1(3A)(b) of the Measure; and

(b) Parts 1, 3 and 4 of the Schedule if the survey is conducted in accordance with section 1(3A)(a) of the Measure.”

**4.** For the Schedule to the 2012 Regulations (Survey of Local Government Candidates in Wales), substitute the Schedule to these Regulations.

*Mark Drakeford*

Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol, un o Weinidogion Cymru
13 Rhagfyr 2016

Cabinet Secretary for Finance and Local Government, one of the Welsh Ministers
13 December 2016

# YR ATODLEN Rheoliad 4

## Arolwg o Ymgeiswyr Llywodraeth Leol yng Nghymru

## RHAN 1

**Gwybodaeth weinyddol**

Darparwch yr un manylion isod â'r rheini a roddwyd ar eich ffurflen enwebu neu ffurflenni enwebu.

**1. Nodwch 3 nod olaf cod post eich cartref:**

Er enghraifft, ar gyfer 'CF10 4LG' nodwch **4LG**

_ _ _

**2. Nodwch 3 nod olaf eich cyfenw:**

Er enghraifft, ar gyfer 'MURPHY' nodwch **PHY**

_ _ _

**3. Nodwch ddiwrnod eich dyddiad geni:**

Er enghraifft, ar gyfer '04/05/2017' nodwch **04**

_ _

## RHAN 2

**Gwybodaeth am yr ymgeisydd (i'w defnyddio wrth gynnal yr arolwg cyn yr etholiad)**

**4. Ym mha etholiad ydych chi'n sefyll?**

*Ticiwch un blwch.*

☐ Cyngor Sir neu Gyngor Bwrdeistref Sirol

☐ Cyngor Cymuned neu Gyngor Tref

☐ Cyngor Sir neu Gyngor Bwrdeistref Sirol a Chyngor Cymuned neu Gyngor Tref hefyd

**5. Pa blaid, os unrhyw un, ydych chi'n ei chynrychioli?**

*Ticiwch un blwch.*

☐ Annibynnol

☐ Plaid Cymru

☐ Plaid Geidwadol Cymru

☐ Plaid Lafur Cymru

☐ Democratiaid Rhyddfrydol Cymru

☐ Arall, nodwch os gwelwch yn dda:

| |
|---|
| |

**6. Ydych chi wedi sefyll i gael eich ethol i <u>Gyngor Sir neu Gyngor Bwrdeistref Sirol</u> yn y gorffennol?**

*Ticiwch un blwch.*

☐ Naddo

☐ Do, a chefais fy ethol

☐ Do, ond ni chefais fy ethol

<u>*Dim ond os rhoddwyd yr ateb "Do, a chefais fy ethol" i Gwestiwn 6 y mae angen gofyn Cwestiwn 6A.*</u>

**6A. Faint yw cyfanswm nifer y blynyddoedd y buoch yn gwasanaethu fel Cynghorydd <u>Sir neu fel Cynghorydd Bwrdeistref Sirol</u>?**

*Dylech gynnwys pob cyfnod y buoch yn gwasanaethu fel Cynghorydd Sir neu fel Cynghorydd Bwrdeistref Sirol.*

__________ blwyddyn.

**7. Ydych chi wedi sefyll i gael eich ethol i Gyngor <u>Cymuned neu i Gyngor Tref</u> yn y gorffennol?**

*Ticiwch un blwch.*

☐ Naddo

☐ Do, a chefais fy ethol

☐ Do, ond ni chefais fy ethol

*Dim ond os rhoddwyd yr ateb "Do, a chefais fy ethol" i Gwestiwn 7 y mae angen gofyn Cwestiwn 7A.*

**7A. Faint yw cyfanswm nifer y blynyddoedd y buoch yn gwasanaethu fel Cynghorydd Cymuned neu fel Cynghorydd Tref?**

*Dylech gynnwys pob cyfnod y buoch yn gwasanaethu fel Cynghorydd Cymuned neu fel Cynghorydd Tref.*

__________blwyddyn.

# RHAN 3

**Gwybodaeth am yr ymgeisydd (i'w defnyddio wrth gynnal yr arolwg ar ôl yr etholiad)**

**4. Ym mha etholiad wnaethoch chi sefyll?**

*Ticiwch un blwch.*

☐ Cyngor Sir neu Gyngor Bwrdeistref Sirol

☐ Cyngor Cymuned neu Gyngor Tref

☐ Cyngor Sir neu Gyngor Bwrdeistref Sirol a Chyngor Cymuned neu Gyngor Tref hefyd

*Dim ond os rhoddwyd yr ateb "Cyngor Sir neu Gyngor Bwrdeistref Sirol" i Gwestiwn 4 y mae angen gofyn Cwestiwn 4A.*

**4A. Rydych wedi dweud eich bod wedi sefyll i gael eich ethol i Gyngor Sir neu Gyngor Bwrdeistref Sirol. Beth yw eich statws yn dilyn yr etholiad?**

*Ticiwch un blwch.*

☐Etholedig ☐ Anetholedig

*Dim ond os rhoddwyd yr ateb "Cyngor Cymuned neu Gyngor Tref" i Gwestiwn 4 y mae angen gofyn Cwestiwn 4B.*

**4B. Rydych wedi dweud eich bod wedi sefyll i gael eich ethol i Gyngor Cymuned neu Gyngor Tref. Beth yw eich statws yn dilyn yr etholiad?**

*Ticiwch un blwch.*

☐Etholedig ☐ Anetholedig

*Dim ond os rhoddwyd yr ateb "Cyngor Sir neu Gyngor Bwrdeistref Sirol a Chyngor Cymuned neu Gyngor Tref hefyd" i Gwestiwn 4 y dylid gofyn Cwestiwn 4C.*

**4C. Rydych wedi dweud eich bod wedi sefyll i gael eich ethol i Gyngor Sir neu Gyngor Bwrdeistref Sirol a Chyngor Cymuned neu Gyngor Tref hefyd. Beth yw eich statws yn dilyn yr etholiad?**

*Ticiwch un blwch ym mhob rhes.*

| | Etholedig | Anetholedig |
|---|---|---|
| Cyngor Sir neu Gyngor Bwrdeistref Sirol | ☐ | ☐ |
| Cyngor Cymuned neu Gyngor Tref | ☐ | ☐ |

**5. Pa blaid, os unrhyw un, oeddech chi'n ei chynrychioli?**

*Ticiwch un blwch.*

☐ Annibynnol

☐ Plaid Cymru

☐ Plaid Geidwadol Cymru

☐ Plaid Lafur Cymru

☐ Democratiaid Rhyddfrydol Cymru

☐ Arall, nodwch os gwelwch yn dda:

**6. Ydych chi wedi sefyll i gael eich ethol i Gyngor Sir neu Gyngor Bwrdeistref Sirol yn y gorffennol?**

*Ticiwch un blwch.*

☐ Naddo

☐ Do, a chefais fy ethol

☐ Do, ond ni chefais fy ethol

*Dim ond os rhoddwyd yr ateb "Do, a chefais fy ethol" i Gwestiwn 6 y mae angen gofyn Cwestiwn 6A.*

**6A. Faint yw cyfanswm nifer y blynyddoedd y buoch yn gwasanaethu fel Cynghorydd Sir neu fel Cynghorydd Bwrdeistref Sirol?**

*Dylech gynnwys pob cyfnod y buoch yn gwasanaethu fel Cynghorydd Sir neu fel Cynghorydd Bwrdeistref Sirol.*

__________blwyddyn.

**7. Ydych chi wedi sefyll i gael eich ethol i Gyngor Cymuned neu Gyngor Tref yn y gorffennol?**

*Ticiwch un blwch.*

☐ Naddo

☐ Do, a chefais fy ethol

☐ Do, ond ni chefais fy ethol

*Dim ond os rhoddwyd yr ateb "Do, a chefais fy ethol" i Gwestiwn 7 y mae angen gofyn Cwestiwn 7A.*

**7A. Faint yw cyfanswm nifer y blynyddoedd y buoch yn gwasanaethu fel Cynghorydd Cymuned neu fel Cynghorydd Tref?**

*Dylech gynnwys pob cyfnod y buoch yn gwasanaethu fel Cynghorydd Cymuned neu fel Cynghorydd Tref.*

__________blwyddyn.

# RHAN 4

**Nodweddion yr ymgeisydd**

**8. Ydych chi'n:**

*Ticiwch un blwch.*

☐ Gwryw

☐ Benyw

**9. Ym mha ystod oedran oeddech ar eich pen-blwydd diweddaraf?**

*Ticiwch un blwch.*

☐ 18-24 oed

☐ 25-29 oed

☐ 30-34 oed

☐ 35-39 oed

☐ 40-44 oed

☐ 45-49 oed

☐ 50-54 oed

☐ 55-59 oed

☐ 60-64 oed

☐ 65-69 oed

☐ 70-74 oed

☐ 75-79 oed

☐ 80 oed neu'n hŷn

**10. A oes gennych gyfrifoldeb rhiant am blentyn 16 oed neu'n iau?**

*Ticiwch un blwch.*

☐ Oes ☐ Nac oes

**11. Beth yw eich grŵp ethnig?**

*Ticiwch un blwch.*

**A. Gwyn**

☐ Cymreig/Seisnig/Albanaidd/Gogledd Iwerddon/Prydeinig

☐ Gwyddelig

☐ Sipsi neu Deithiwr Gwyddelig

☐ Unrhyw gefndir Gwyn arall

**B. Grwpiau cymysg/aml-ethnig**

☐ Gwyn a Du Caribïaidd

☐ Gwyn a Du Affricanaidd

☐ Gwyn ac Asiaidd

☐ Unrhyw gefndir cymysg neu aml-ethnig arall

**C. Asiaidd/Asiaidd Prydeinig**

☐ Indiaidd

☐ Pacistanaidd

☐ Bangladeshaidd

☐ Tsieineaidd

☐ Unrhyw gefndir Asiaidd arall

**D. Du/Affricanaidd/Caribïaidd/Du Prydeinig**

☐ Affricanaidd

☐ Caribïaidd

☐ Unrhyw gefndir Du/Affricanaidd/Caribïaidd arall

**E. Grŵp ethnig arall**

☐ Arabaidd

☐ Unrhyw grŵp ethnig arall

**12. Beth yw eich crefydd?**

*Ticiwch un blwch.*

☐ Dim crefydd

☐ Cristion (pob enwad)

☐ Bwdhydd

☐ Hindŵ

☐ Iddew

☐ Mwslim

☐ Sikh

☐ Unrhyw grefydd arall, rhowch fanylion:

**13. Ydych chi’n eich ystyried eich hun yn:**
*Ticiwch un blwch.*

☐ Heterorywiol neu strêt

☐ Hoyw neu lesbiaidd

☐ Deurywiol

☐ Arall

**14. Ydych chi’n gallu deall, siarad, darllen neu ysgrifennu Cymraeg?**
*Ticiwch pob blwch sy’n gymwys.*

☐ Yn deall Cymraeg llafar

☐ Yn siarad Cymraeg

☐ Yn darllen Cymraeg

☐ Yn ysgrifennu Cymraeg

☐ Dim un o’r uchod

**15. Beth yw eich prif iaith?**
*Ticiwch un blwch.*

☐ Saesneg

☐ Cymraeg

☐ Arall (gan gynnwys Iaith Arwyddion Prydain), rhowch fanylion:

| |
|---|
| |

**Addysg a chyflogaeth**

**16. Beth yw eich cymhwyster addysgol uchaf?**
*Ticiwch un blwch.*

☐ Dim

☐ Lefel 'O', TGAU, CSE, NVQ Lefel 1/2 neu gyfwerth

☐ Lefel 'A', NVQ Lefel 3 neu gyfwerth

☐ NVQ Lefel 4 neu gyfwerth

☐ Gradd Sylfaen neu Radd Gyffredin, NVQ Lefel 5, Diploma Cenedlaethol Uwch neu Dystysgrif Genedlaethol Uwch

☐ Gradd Anrhydedd

☐ Cymhwyster Meistr Ôl-raddedig

☐ Cymhwyster proffesiynol (e.e. cyfrifyddiaeth)

**17. Beth yw eich statws cyflogaeth cyfredol?**

*Ticiwch pob un sy'n gymwys.*

- ☐ Mewn cyflogaeth lawnamser
- ☐ Mewn cyflogaeth ran-amser
- ☐ Hunangyflogedig
- ☐ Di-waith
- ☐ Myfyriwr llawnamser
- ☐ Myfyriwr rhan-amser
- ☐ Wedi ymddeol
- ☐ Ar absenoldeb mamolaeth
- ☐ Yn gofalu am deulu neu gartref
- ☐ Salwch hirdymor neu anabl
- ☐ Ar un o gynlluniau hyfforddiant y llywodraeth
- ☐ Gweithiwr di-dâl mewn busnes teuluol
- ☐ Gofalwr di-dâl
- ☐ Arall, rhowch fanylion:

**18. Pa gategori sy'n disgrifio orau eich sector cyflogaeth cyfredol neu ddiweddaraf?**

*Ticiwch un blwch.*

- ☐ Llywodraeth Leol
- ☐ Llywodraeth Ganolog
- ☐ Y GIG
- ☐ Addysg
- ☐ Cyflogwr arall yn y sector cyhoeddus
- ☐ Sector preifat
- ☐ Sector gwirfoddol
- ☐ Amaethyddiaeth
- ☐ Arall, rhowch fanylion:

**19. Pa gategori sy'n disgrifio orau eich math o gyflogaeth gyfredol neu ddiweddaraf?**

*Ticiwch un blwch.*

- ☐ Rheolwr neu swyddog gweithredol
- ☐ Gweithiwr proffesiynol neu dechnegol
- ☐ Darlithydd, athro neu ymchwilydd
- ☐ Gwaith gweinyddol, clercol, ysgrifenyddol neu werthiant
- ☐ Gwaith llaw neu grefftwr
- ☐ Arall, rhowch fanylion:

**20. Ydych chi wedi rhoi cymorth di-dâl, er enghraifft, fel gwirfoddolwr, ymddiriedolwr neu aelod o fwrdd, i unrhyw un o'r mathau hyn o grwpiau neu sefydliadau ar unrhyw adeg yn ystod y 12 mis blaenorol?**

*Ticiwch un blwch ym mhob rhes.*

| | Do | Naddo |
|---|---|---|
| Addysg plant/ysgolion | ☐ | ☐ |
| Gweithgareddau ieuenctid/plant (y tu allan i'r ysgol) | ☐ | ☐ |
| Addysg oedolion | ☐ | ☐ |
| Chwaraeon neu ymarfer corff (e.e. hyfforddi) | ☐ | ☐ |
| Grŵp crefyddol neu grŵp ffydd | ☐ | ☐ |
| Grŵp ar sail rhywedd | ☐ | ☐ |
| Grŵp rhywioldeb | ☐ | ☐ |
| Plaid wleidyddol | ☐ | ☐ |
| Grŵp iechyd, anabledd neu les cymdeithasol | ☐ | ☐ |
| Yr henoed | ☐ | ☐ |
| Cymorth cyntaf | ☐ | ☐ |
| Grŵp amgylcheddol | ☐ | ☐ |
| Grŵp lles anifeiliaid | ☐ | ☐ |
| Cyfiawnder neu Hawliau Dynol | ☐ | ☐ |
| Grŵp cymunedol neu grŵp cymdogaeth | ☐ | ☐ |
| Grŵp dinasyddion | ☐ | ☐ |
| Clwb cymdeithasol | ☐ | ☐ |
| Undeb llafur | ☐ | ☐ |
| Arall (Rhowch fanylion isod) | ☐ | ☐ |

**Os ydych wedi dewis "arall" rhowch fanylion:**________________________

**<u>Iechyd ac anabledd</u>**

**21. Sut mae eich iechyd corfforol yn gyffredinol?**

*Ticiwch un blwch.*

☐ Da iawn
☐ Da
☐ Gweddol
☐ Gwael

☐ Gwael iawn

**22. Sut mae eich iechyd meddwl yn gyffredinol?**

*Ticiwch un blwch.*

☐ Da iawn
☐ Da
☐ Gweddol
☐ Gwael
☐ Gwael iawn

**23. Ydych chi'n ystyried bod gennych anabledd?**

*Ticiwch un blwch.*

☐ Ydw ☐ Nac ydw

**24. A oes gennych salwch neu anabledd sy'n cyfyngu ar eich gweithgareddau mewn unrhyw ffordd?**

*Ticiwch un blwch.*

☐ Oes ☐ Nac oes

**25. A oes gennych unrhyw un o'r cyflyrau canlynol?**

*Ticiwch un blwch ym mhob rhes.*

| | Oes | Nac oes |
|---|---|---|
| Nam corfforol | ☐ | ☐ |
| Nam ar y synhwyrau | ☐ | ☐ |
| Anabledd dysgu | ☐ | ☐ |
| Problem iechyd meddwl | ☐ | ☐ |
| Cyflwr iechyd hirdymor | ☐ | ☐ |
| Arall (rhowch fanylion isod) | ☐ | ☐ |

**Os ydych wedi dewis 'Arall' rhowch fanylion: ____________**

©Ⓟ Hawlfraint y Goron 2017

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

# SCHEDULE Regulation 4

## Survey of Local Government Candidates in Wales

## PART 1

**Administration information**

Please provide the same details below as those given on your nomination form(s).

**1. Please enter the last 3 characters of your home postcode:**

For example, for 'CF10 4LG' please enter **4LG**

_ _ _

**2. Please enter the last 3 characters of your surname:**

For example, for 'MURPHY' please enter **PHY**

_ _ _

**3. Please enter the day of your date of birth:**

For example, for '04/05/2017' please enter **04**

_ _

## PART 2

**Candidate information (for use when conducting the survey before the election)**

**4. In which election are you standing?**

*Please select one option.*

☐ County or County Borough Council

☐ Community or Town Council

☐ Both County or County Borough Council and Community or Town Council

**5. Which party, if any, are you representing?**

*Please select one option.*

☐ Independent

☐ Plaid Cymru

☐ Welsh Conservative Party

☐ Welsh Labour Party

☐ Welsh Liberal Democrats

☐ Other, please specify:

**6. Have you stood for election to a <u>County or County Borough</u> Council in the past?**

*Please select one option.*

☐ No

☐ Yes and was elected

☐ Yes but was not elected

*<u>Question 6A only needs to be asked if Question 6 has been answered "Yes and was elected".</u>*

**6A. How many years in total have you served as a <u>County or County Borough</u> Councillor?**

*Please include all periods of office that you have served as a County or County Borough Councillor.*

__________ years.

**7. Have you stood for election to a <u>Community or Town</u> Council in the past?**

*Please select one option.*

☐ No

☐ Yes and was elected

☐ Yes but was not elected

*Question 7A only needs to be asked if Question7 has been answered "Yes and was elected".*

**7A. How many years in total have you served as a Community or Town Councillor?**

*Please include all periods of office that you have served as a Community or Town Councillor.*

__________ years.

# PART 3

**Candidate information (for use when conducting the survey after the election)**

**4. In which election did you stand?**

*Please select one option.*

☐ County or County Borough Council

☐ Community or Town Council

☐ Both County or County Borough Council and Community or Town Council

*Question 4A only needs to be asked if Question 4 has been answered "County or County Borough Council".*

**4A. You said that you stood for election to a County or County Borough Council. What is your status following the election?**

*Please select one option.*

☐ Elected ☐ Unelected

*Question 4B only needs to be asked if Question 4 has been answered "Community or Town Council".*

**4B. You said that you stood for election to a Community or Town Council. What is your status following the election?**

*Please select one option.*

☐ Elected ☐ Unelected

*Question 4C only needs to be asked if Question 4 has been answered "Both County or County Borough Council and Community or Town Council".*

**4C. You said that you stood for election to both a County or County Borough Council and a Community or Town Council. What is your status following the election?**

*Please select one option in each row.*

| | Elected | Unelected |
|---|---|---|
| County or County Borough Council | ☐ | ☐ |
| Community or Town Council | ☐ | ☐ |

**5. Which party, if any, did you represent?**

*Please select one option.*

☐ Independent

☐ Plaid Cymru

☐ Welsh Conservative Party

☐ Welsh Labour Party

☐ Welsh Liberal Democrats

☐ Other, please specify:

**6. Have you stood for election to a <u>County or County Borough</u> Council in the past?**

*Please select one option.*

☐ No

☐ Yes and was elected

☐ Yes but was not elected

*Question 6A only needs to be asked if Question 6 has been answered "Yes and was elected".*

**6A. How many years in total have you served as a <u>County or County Borough</u> Councillor?**

*Please include all periods of office that you have served as a County or County Borough Councillor.*

___________ years.

**7. Have you stood for election to a Community or Town Council in the past?**

*Please select one option.*

☐ No

☐ Yes and was elected

☐ Yes but was not elected

*Question 7A only needs to be asked if Question7 has been answered "Yes and was elected".*

**7A. How many years in total have you served as a Community or Town Councillor?**

*Please include all periods of office that you have served as a Community or Town Councillor.*

__________ years.

# PART 4

**Candidate characteristics**

**8. Are you:**

*Please select one option.*

☐ Male

☐ Female

**9. What age band were you in on your last birthday?**

*Please select one option.*

☐ 18-24 years

☐ 25-29 years

☐ 30-34 years

☐ 35-39 years

☐ 40-44 years

☐ 45-49 years

☐ 50-54 years

☐ 55-59 years

☐ 60-64 years

☐ 65-69 years

☐ 70-74 years

☐ 75-79 years

☐ 80 years or over

**10. Do you have parental responsibility for a child aged 16 or under?**

*Please select one option.*

☐ Yes ☐ No

**11. What is your ethnic group?**

*Please select one option.*

**A. White**

☐ Welsh/ English/ Scottish/ Northern Irish/ British

☐ Irish

☐ Gypsy or Irish Traveller

☐ Any other White background

**B. Mixed/multiple ethnic groups**

☐ White and Black Caribbean

☐ White and Black African

☐ White and Asian

☐ Any other mixed or multiple ethnic background

**C. Asian/ British Asian**

☐ Indian

☐ Pakistani

☐ Bangladeshi

☐ Chinese

☐ Any other Asian background

**D. Black/ African/ Caribbean/ Black British**

☐ African

☐ Caribbean

☐ Any other Black/ African/ Caribbean background

**E. Other ethnic group**

☐ Arab

☐ Any other ethnic group

**12. What is your religion?**

*Please select one option.*

- ☐ No religion
- ☐ Christian (all denominations)
- ☐ Buddhist
- ☐ Hindu
- ☐ Jewish
- ☐ Muslim
- ☐ Sikh
- ☐ Any other religion, please specify:

**13. Do you consider yourself to be:**
*Please select one option.*

- ☐ Heterosexual or straight
- ☐ Gay or lesbian
- ☐ Bisexual
- ☐ Other

**14. Can you understand, speak, read or write Welsh?**
*Please select all that apply.*

- ☐ Understand spoken Welsh
- ☐ Speak Welsh
- ☐ Read Welsh
- ☐ Write Welsh
- ☐ None of the above

**15. What is your main language?**
*Please select one option.*

☐ English

☐ Welsh

☐ Other (including British Sign Language), please specify:

<u>**Education and employment**</u>

**16. What is your highest educational qualification?**
*Please select one option.*

☐ None
☐ 'O' Level, GCSE, CSE, NVQ Level 1/2 or equivalent
☐ 'A' Level, NVQ Level 3 or equivalent
☐ NVQ Level 4 or equivalent
☐ Foundation or Ordinary Degree, NVQ Level 5, HND or HNC
☐ Honours Degree
☐ Masters Postgraduate qualification
☐ Professional qualification (e.g. accountancy)

**17. What is your current employment status?**

*Please select all that apply.*

- ☐ In full-time employment
- ☐ In part-time employment
- ☐ Self employed
- ☐ Unemployed
- ☐ Full-time student
- ☐ Part-time student
- ☐ Retired
- ☐ On maternity leave
- ☐ Looking after family or home
- ☐ Long term sick or disabled
- ☐ On a government training scheme
- ☐ Unpaid worker in family business
- ☐ Unpaid carer
- ☐ Other, please specify:

**18. What category best describes your current or most recent employment sector?**

*Please select one option.*

- ☐ Local Government
- ☐ Central Government
- ☐ NHS
- ☐ Education
- ☐ Other public sector
- ☐ Private sector
- ☐ Voluntary sector
- ☐ Agriculture
- ☐ Other, please specify:

**19. Which category best describes your current or most recent type of employment?**

*Please select one option.*

- ☐ Managerial or executive
- ☐ Professional or technical
- ☐ Lecturer, teacher or researcher
- ☐ Administrative, clerical, secretarial or sales
- ☐ Manual or craft
- ☐ Other, please specify:

**20. Have you given unpaid help, for example as a volunteer, trustee or board member, to any of these types of groups or organisations at any time in the last 12 months?**

*Please select one option in each row.*

| | Yes | No |
|---|---|---|
| Children's education/schools | ☐ | ☐ |
| Youth/children's activities (outside school) | ☐ | ☐ |
| Education for adults | ☐ | ☐ |
| Sports or exercise (e.g. coaching) | ☐ | ☐ |
| Religious or faith based group | ☐ | ☐ |
| Gender group | ☐ | ☐ |
| Sexuality group | ☐ | ☐ |
| Political party | ☐ | ☐ |
| Health, disability or social welfare group | ☐ | ☐ |
| The elderly | ☐ | ☐ |
| First aid | ☐ | ☐ |
| Environment group | ☐ | ☐ |
| Animal welfare group | ☐ | ☐ |
| Justice or Human Rights | ☐ | ☐ |
| Community or neighbourhood group | ☐ | ☐ |
| Citizen's group | ☐ | ☐ |
| Social club | ☐ | ☐ |
| Trade union | ☐ | ☐ |
| Other (please specify below) | ☐ | ☐ |

**If you have selected 'Other' please specify:**________________________________

**<u>Health and disability</u>**

**21. How is your physical health in general?**

*Please select one option.*

☐ Very good
☐ Good
☐ Fair
☐ Poor
☐ Very poor

**22. How is your mental health in general?**

*Please select one option.*

- ☐ Very Good
- ☐ Good
- ☐ Fair
- ☐ Poor
- ☐ Very poor

**23. Do you consider yourself to have a disability?**

*Please select one option.*

☐ Yes ☐ No

**24. Do you have an illness or disability that limits your activities in any way?**

*Please select one option.*

☐ Yes ☐ No

**25. Do you have any of the following conditions?**

*Please select one option in each row.*

| | Yes | No |
|---|---|---|
| Physical impairment | ☐ | ☐ |
| Sensory impairment | ☐ | ☐ |
| Learning disability | ☐ | ☐ |
| Mental health issue | ☐ | ☐ |
| Long term health condition | ☐ | ☐ |
| Other (please specify below) | ☐ | ☐ |

**If you have selected 'Other' please specify: ____________**

© Crown copyright 2017

Printed and published in the UK by The Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

## 2016 Rhif 1220 (Cy. 291)

## 2016 No. 1220 (W. 291)

## LLYWODRAETH LEOL, CYMRU

## LOCAL GOVERNMENT, WALES

Rheoliadau Arolygon Etholiadau Lleol (Cymru) (Diwygio) 2016

The Local Election Survey (Wales) (Amendment) Regulations 2016

£6.00

W201612154 01/2017 19585

http://www.legislation.gov.uk/id/wsi/2016/1220

ISBN 978-0-348-11322-8